

Bundle Health Board - Welsh 23 January 2020

- 1 Agenda
Agenda Board 23.1.20 Public V1.0 Cymraeg.docx
- 2 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 7.11.19
20.8a Minutes Board 7.11.19 Public V0.04 Cymraeg.docx

Agenda'r Bwrdd Iechyd

Dyddiad 23/01/2020
Amser 14:00
Lleoliad Neuadd Reichel, Ffordd Friddoedd, Bangor LL57 2TR
Cadeirydd Mr Mark Polin

MATERION AGORIADOL A LLYWODRAETHU EFFEITHIOL

20/5 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

20/6 Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd - Mr Mark Polin

20/7 Datganiadau o Fuddiant

20/8 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 7.11.19 am fanwl-gywirdeb ac adolygu'r Cofnod Cryno o Weithredoedd

20/9 Mesurau Arbennig

20/9.1 Adroddiad Sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 9.12.19 - Mr M Polin

20/9.2 Adroddiad Trosolwg Hunanadolygu - Mrs Gill Harris

EITEMAU AR GYFER CYDSYNIAD

20/10 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grwpiau Cyngori

20/10.1 Cydbwyllgor Archwilio ac Ansawdd, Pwyllgor Diogelwch a Phrofiad 5.11.19 (y Cyng. M Hughes a Mrs L Reid)

20/10.2 Pwyllgor Archwilio 12.12.19 (y Cyng. M Hughes)

20/10.3 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 19.11.19 (Mrs L Reid)

20/10.4 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 24.10.19, 4.12.19 a 19.12.19 (Mr M Polin)

20/10.5 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.12.19 (Mrs J Hughes)

20/10.6 Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl 20.12.19 (Mrs L Meadows)

20/10.7 Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth 4.11.19 (Mr M Polin)

20/10.8 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 3.12.19 (Mrs L Meadows)

20/10.9 Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 21.11.19 (Mr J Cunliffe)

20/10.10 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 17.12.19 (Mr Ff Williams)

20/10.11 Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol 13.12.19 (Mr G Evans)

20/10.12 Fforwm Partneriaeth Leol 8.10.19 (Mrs S Green)

20/11 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008 Deddf Iechyd Meddwl 1983. Diweddarau Cofrestr Meddygon Cymeradwy Adran 12(2) i Gymru a Diweddarau Cofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan) - Mr Gary Doherty

I'W DRAFOD

20/12 Adroddiadau Perfformiad - Mr Mark Wilkinson

20/12.1 Adroddiad Cynnydd Monitro'r Cynllun Blynyddol 2019-20 - Mr Mark Wilkinson

20/12.2 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad - Mr Mark Wilkinson

20/12.3 Y diweddaraf am Ofal heb ei Drefnu - Mrs Gill Harris

20/13 Adroddiad Cyllid Mis 7 - Ms Sue Hill

20/14 Adroddiad Cyllid Mis 8 - Ms Sue Hill

20/15 Datblygu Strategaeth Ddigidol: y Darlun Cenedlaethol - Dr David Fearnley

20/16 Asesu Strwythuredig ac Adroddiad Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru - Mr Andrew Doughton

20/17 Safonau'r Gymraeg: Y Diweddaraf am Sefyllfa BIPBC - Miss Teresa Owen

I BENDERFYNU ARNO

20/19 Achos Busnes Cyfalaf Canolfan Integredig Dementia ac Iechyd Meddwl Oedolion Bryn Beryl - Mr Mark Wilkinson

20/20 Archebion Sefydlog a Chynllun Cadw a Dirprwyo Pwerau - Mrs Liz Jones

ER GWYBODAETH

20/21 Crynodeb o fusnes Preifat y Bwrdd i adrodd arno'n gyhoeddus – Mrs Liz Jones

20/22 Dogfennau wedi'u Llofnodi o dan Sêl - Mrs Liz Jones

20/23 Cymru Gyfan a Fforymau Eraill

20/23.1 Nodyn Briffio Cydbwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru 12.11.19

20/23.2 Crynodeb Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys

20/23.3 Cydbwyllgor Canolbarth Cymru 19.11.19

20/23.4 Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau 2.12.19

MATERION I GLOI

20/24 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Dydd Iau 26.3.20 am 9.30am yn Neuadd Reichel, Bangor

20/25 Cyfarfodydd Pwyllgor i'w cynnal yn gyhoeddus cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd

Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 28.1.20; Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 4.2.20; Pwyllgor Digidol a Llywodraethu Gwybodaeth 13.2.20; Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 27.2.20; Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.3.20, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 17.3.20, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 24.3.20.

20/26 Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd

Penderfyniad i Wahardd y Wasg a'r Cyhoedd - "Bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu gwahardd o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i fuddiant y cyhoedd yn unol ag Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)."



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Cofnodion Drafft cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 7.11.19 ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn.

Yn bresennol:

Mr M Polin	Cadeirydd
Mr G Doherty	Prif Weithredwr
Yr Athro N Callow	Aelod Annibynnol ~ Prifysgol
Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol
Mrs D Carter	Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau
Mr J Cunliffe	Aelod Annibynnol
Mrs M Edwards	Aelod Cyswllt ~ Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Mr G Evans	Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd
Dr D Fearnley	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol
Mrs S Hill	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid
Mrs J Hughes	Aelod Annibynnol
Mr E Jones	Aelod Annibynnol
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol
Miss T Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Mrs L Reid	Aelod Annibynnol
Ms D Sharp	Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
Mrs H Wilkinson	Aelod Annibynnol
Mr M Wilkinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad
Mr Ff Williams	Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Yn Bresennol:

Mrs Clare Darlington	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol (Ardal y Canol) (<i>rhan o'r cyfarfod</i>)
Ms Estelle Hitchon	Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltiad
Mrs Ffion Johnstone	Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin – <i>ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned</i>
Mrs L Singleton	Cyfarwyddwr Partneriaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu <i>ar gyfer y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl</i>
Mr Jonathan Sweet	Rheolwr Gweithrediadau WAST y Gorllewin
Ms Diane Davies	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol

Cyfieithydd, Aelodau'r Cyhoedd, Arsylwyr

Eitem Agenda	Gweithredu gan
<p>19.153a Busnes agoriadol</p> <p>19.153a.1 Cynghorodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau o ran y cynigion yn ymwneud â rhestr ddyletswyddau Nyrsys, yn parhau mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r mater mewn cyfarfod arbennig y Fforwm Partneriaeth Lleol a gynhelir y diwrnod wedyn. Cadarnhaodd yr Aelod Annibynnol (Undebau Llafur) fod Undebau Llafur wedi ymgysylltu trwy gydol hyn, yn cynnwys cael trafodaeth yn y Fforwm Partneriaeth Lleol ac yn y broses gwneud penderfyniadau a wnaethpwyd. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol bod</p>	

ymgysylltiad wedi bod gyda chydweithwyr yr Undebau Llafur, lle bu iddi ddiolch iddynt am gymryd rhan. Fodd bynnag, bu iddi dynnu sylw at y ffaith bod cynigion yn cael eu cyflwyno i roi chwarae teg a chysondeb o ran arfer ar draws y sefydliad a dywedodd bod ymgynghoriad wedi bod ar y broses gweithredol i leihau effaith negyddol. Cynghorodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) wedi ardystio'r penderfyniad gweithredol ar 24.11.19.

19.153a.2 Cyfeiriodd y Cadeirydd at ddi-ddordeb diweddar y cyfryngau ym mhenodiad y Bwrdd o'r Cyfarwyddwr Adfer Dros Dro. Nododd fod y Bwrdd yn ymwybodol o'r penodiad a chadarnhaodd ei fod ef a chynghorwr ariannol annibynnol y Bwrdd wedi bod yn rhan o'r broses dewis a wnaethpwyd yn dilyn argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ddod ag arbenigedd i gynorthwyo gyda'r cynllunio ac adferiad ariannol. Cadarnhaodd y penodiad a chyfiawnhau eu bod wedi ystyried y gydnabyddiaeth a roddwyd yn ofalus, gan nodi bod hyn yn debyg i gyfraddau sy'n cael eu talu yn y GIG yn Lloegr. Pwysleisiodd fod disgwyliad amlwg o gael enillion ar y buddsoddiad yn ehangach a rhoddodd sicrwydd ei fod yn darparu hyd at y pwynt hwn. Nododd ei fod yn gweld rhai elfennau o'r newyddion ar y cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â deilydd y swydd a'i wraig yn ffaidd. Eglurodd y Cadeirydd er bod y materion sy'n ymwneud â'r rhestr ddyletswyddau wedi cael eu gyrru'n rhannol gan arbedion ariannol, gwnaethpwyd ystyriaethau pwysig hefyd yn cynnwys diogelwch a thegwch ar draws y sefydliad. Cydnabu anawsterau rhai o benderfyniadau'r Bwrdd wrth bwysleisio eu bod wedi ystyried y goblygiadau'n ofalus hefyd ac nad oedd y sefyllfa bresennol yn opsiwn.

19.153b Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd

19.153b.1 Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod a chyflwynodd pob aelod o'r bwrdd eu hunain yn ddwyieithog.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at:

19.153b.2 Y Deisebau a Dderbyniwyd

19.153b.2.1 Nodwyd bod deiseb yn cynnwys 281 o lofnodion wedi'i dderbyn gan breswylwyr Eglwysbach o ran y cyfleusterau parcio yn Ysbyty Glan Clwyd. Cynghorodd y Cadeirydd y cafwyd trafodaeth ar y mater yn ymwneud â Pharcio a Theithio yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar 24.10.19.

19.153.2.2 Nodwyd bod dwy ddeiseb wedi'u derbyn (gan Blaid Cymru ac Unite) o ran y rhestr ddyletswyddau nyrsys.

19.153b.3 Camau Gweithredu'r Cadeirydd

Cymerwyd y camau gweithredu a ganlyn gan y Cadeirydd ers y cyfarfod blaenorol:

- Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar 24.10.19 am gam gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo caffael y brydles ar gyfer Canolfan Feddygol Hillcrest am gyfnod o chwe mlynedd.
- Cymerwyd cam gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo codiant mewn chwyddiant Gofal Nyrsio a Ariennir ar sail Cymru gyfan am ddwy flynedd arall i gynnwys 2019/20 a 2020/21.
- Cymerwyd cam gweithredu'r Cadeirydd yn dilyn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad ar 24.10.19 i gymeradwyo argymhellion contract i barhau â'r cais am

<p>gymeradwyaeth gan weinidog ar gyfer Cytundeb Dadansoddydd Nwy Gwaed Gwasanaeth a Reolir.</p>	
<p>19.154 Ymddiheuriadau am Absenoldeb</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau gan Mrs M W Jones, Dr C Stockport, Mrs G Harris a Mr A Roach.</p>	
<p>19.155 Datganiadau Diddordeb</p> <p>Dim</p>	
<p>19.156 Cofnodion Drafft Cyfarfod y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd yn gyhoeddus ar 5.9.19 er cywirdeb ac adolygu'r Cofnod o Weithredoedd Cryno</p> <p>19.156.1 Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir yn amodol ar nodi bod Cyng M Hughes yn bresennol.</p> <p>19.156.2 Darparwyd diweddariad i'r Cofnod o Weithredoedd Cryno.</p> <p>19.156.3 Nodwyd bod ystod o nodiadau gwybodaeth wedi'u dosbarthu i aelodau'r bwrdd.</p>	
<p>19.157 Adroddiad Sicrwydd Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Arbennig 10.10.19.</p> <p>Nodwyd bod y fframwaith yn cael ei drafod ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru a phwysigrwydd symud ymlaen yn gyflym. Bu i'r Cadeirydd ailadrodd bod angen i gynllun BIPBC ddangos uchelgais o ran symud BIPBC i ffwrdd o'r sefyllfa bresennol mewn mesurau arbennig. Cynghorodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau wedi bod yng nghyfarfod y Tîm Gweithredol y diwrnod cynt, yn pwysleisio pwysigrwydd symud y sefydliad ymlaen ac arddangos hyn yn fwy pendant yn y cynllun.</p>	
<p>19.158 Cofnodion Drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 25.7.19</p> <p>Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir.</p>	
<p>19.159 Rheolau Sefydlog (SOs) / Cynllun Neilltuo a Dirprwyo Pwerau (SoRD)</p> <p>19.159.1 Cydnabu'r Prif Weithredwr y gwaith a wnaethpwyd wrth adolygu'r SOs a'r SoRD. Nodwyd bod rôl yr Uwch Swyddog Cyfrifol Gwybodaeth wedi'i neilltuo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.</p> <p>19.159.2 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r dogfennau a gyflwynwyd, a'r ffaith eu bod yn amodol ar archwiliad cynt a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio. • Cadarnhau bod model SOs, SoRD a dogfennau eraill a gyflwynwyd yn cael eu mabwysiadu. • Nodi bod SOs a SoRD BIPBC yn amodol ar adolygiad blynyddol parhaus fel lleiafswm, lle bydd y canlyniadau yn parhau i gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. • Nodi y bydd SoRDs gweithredol yn cael eu diweddarau ar gyfer pob Adran Gorfforaethol, Uwch Adran, Ardal ac Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, yn manylu ar ddirprwyo pwerau i'r lefel awdurdod sydd uniongyrchol o dan yr hyn a ddengys yn y brif SoRDs. Bydd y 	

<p>SoRDs gweithredol a ddiweddarwyd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr ar gyfer ei archwilio a'i gymeradwyo.</p>	
<p>19.160 Deddf Iechyd Meddwl 1983 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Deddf Iechyd Meddwl 1983 Cyfarwyddiadau Clinigwyr Cymeradwy (Cymru) 2008. Diweddariad ar Gofrestr Adran 12(2) Meddygon Cymeradwy ar gyfer Cymru a Diweddariad ar Gofrestr Clinigwyr Cymeradwy (Cymru Gyfan)</p> <p>19.160.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn cadarnhau'r rhestr o'r rhai a ychwanegwyd ac a dynnwyd oddi ar Gofrestr Cymru Gyfan o Feddygon Cymeradwy Adran 12(2) ar gyfer Cymru a Chofrestr Cymru Gyfan o Glinigwyr Cymeradwy.</p>	
<p>19.161 Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – ymateb i adroddiad yr Uned Gyflawni ar wasanaethau Gofal Cychwynnol (Rhan 1 o'r mesur)</p> <p>19.161.1 Cyflwynodd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin yr eitem hon gan osod pwysigrwydd y maes hwn yn ei gyd-destun fel yr amodwyd gan y Prif Weinidog. Dywedodd fod yr adroddiad cychwynnol yn darparu nifer o argymhellion a oedd yn cael eu symud ymlaen gan y sefydliad fel y'u nodwyd yn y camau a gynghorwyd. Dywedodd y byddai'r adroddiad llawn yn cael ei ddsbarthu i'r Bwrdd maes o law, gyda diweddariadau'n cael eu darparu drwy'r strwythur llywodraethu Pwyllgorau. Nodwyd yn arbennig bod uned cyflawni Llywodraeth Cymru yn fodlon gyda dull integredig PBC, fodd bynnag roedd lle i wella.</p> <p>19.161.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, cynghorodd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin bod argymhelliad 3 wedi'i ddatrys a'i roi ar waith a sicrhodd fod cynllun cyfathrebu ar y trywydd iawn i gael ei ddatblygu ac y byddai'n cael ei ddsbarthu i aelodau maes o law. O ran y problemau recriwtio a chadw staff a mynd i'r afael â'r pryder bod Meddygon Teulu ar lawr gwlad yn gwybod am y safonau a'r fframwaith, nodwyd y byddai cyfathrebu safonedig drwy glystyrau yn gwella ymwybyddiaeth wrth symud ymlaen. Cwestiynodd y Bwrdd gyfeiriadau gan Feddygon Teulu. Awgrymodd cynrychiolydd yr Aelod Cyswllt - Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol ddiddordeb mewn symud y gwaith partneriaeth hwn ymlaen a hefyd ei rannu gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mewn ymateb i sylwadau'r Bwrdd, ymrwymodd Cyfarwyddwr Ardal y Gorllewin i roi adborth i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol am y pryder ynghylch gweithredu'r rhaglenni trawsnewid a chysylltedd â'r gymuned a'r gweithlu. Cytunodd hefyd i egluro oed pobl ifanc fel o dan 25 neu 18 o fewn adroddiadau PBC.</p> <p>19.161.3 Myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ar y gwaith da yr adroddwyd arno, gan nodi'r galw cynyddol a'r cyfle y byddai'r adroddiad yn ei ddarparu i ddeall y sefyllfa ymhellach a helpu plant sydd â'r anghenion mwyaf y mae angen mynd i'r afael â nhw. Sicrhawyd y Cadeirydd fod hunanladdiad diweddar unigolyn ifanc yn Ynys Môn yn cael ei ymchwilio. Rhoddodd hefyd adroddiad cadarnhaol ynghylch ei ymweliad diweddar ag ysbyty Cefni.</p> <p>19.161.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad ac yn cefnogi'r camau a ddynodwyd.</p>	<p>FfJ</p> <p>FfJ</p> <p>FfJ</p>
<p>19.179 Diweddariad ar Wasanaethau Fasgwlaidd</p> <p>19.179.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol yr eitem hon. Darparodd yr adroddiad ddiweddariad ar adolygiad arfaethedig y gwasanaethau fasgwlaidd canolog,</p>	

fel y cytunwyd yng Ngweithdy'r Bwrdd ym mis Hydref 2019. Roedd disgwyl i'r adolygiad gwasanaeth gael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020 yn dilyn trafodaeth ychwanegol gan y tîm gweithredol a'r tîm clinigol, dadansoddi data cenedlaethol newydd, a chyngor arbenigol clinigol allanol i helpu i baratoi camau sy'n codi o'r adolygiad. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol bod BIPBC wedi bod yn rhan o archwiliad meincnodi sydd wedi'i gynnal, bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r aelodau drannoeth gan ei fod dan embargo ar hyn o bryd. Cytunodd y Prif Weithredwr y gallai'r Bwrdd sicrhau sicrwydd da o ran lefel y monitro sy'n digwydd.

19.179.2 O ran cwestiynau aelodau'r Bwrdd, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol y byddai risgiau'n cael sylw wrth i'r gwasanaeth fynd yn ei flaen a chynghorodd hefyd ar y llwybr llywodraethu sy'n ymwneud â'r Grŵp Llywodraethu Clinigol Fasgwlaidd yn adrodd trwy Reolwyr Gofal Eilaidd. Disgrifiwyd hyfforddiant a dysgu ar y cyd o fewn y tîm ac ar draws y sefydliad. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau ar welliannau i lwybrau, gan gynnwys yn yr Adran Achosion Brys, o ran materion strôc.

19.179.3 Cytunwyd y byddai gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu fel y gallai'r Bwrdd ddeall ymhellach am farwolaeth claf a nodwyd yn yr adroddiad. Yn ogystal, cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol yn darparu adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (HIW) y cyfeiriwyd ato i'r aelodau a byddai'r aelodau'n cael adroddiad sicrwydd cyn diwedd mis Rhagfyr 2019.

DF

DF

19.179.4 Wrth gwestiynu a oedd digwyddiadau wedi cynyddu yn dilyn canoli, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol y bu gwell diwylliant o adrodd am ddigwyddiadau yn y sefydliad a oedd yn iach iawn, fodd bynnag, ni allai ddweud bod unrhyw gynnydd yn cyd-fynd â chyflwyno'r gwasanaeth canolog. Cadarnhaodd hefyd fod problemau gyda llwybrau a amlygwyd gan HIW yn cael sylw. Nododd y Bwrdd y newid diwylliannol cadarnhaol mewn adrodd ar ddigwyddiadau a chafodd wybod am y broses adolygu ac adrodd gadarn a gyflwynwyd fel rhan o'r gwaith gwella cleifion sy'n cael ei wneud. Nododd y Bwrdd bwysigrwydd dysgu sydd ar waith.

19.179.5 Penderfynwyd

- 1) nodi'r adroddiad ynghyd â'r cytundeb i ddarparu adroddiad dros dro erbyn diwedd mis Rhagfyr hyd nes y cwblheir yr Adolygiad Gwasanaeth ddiwedd mis Mawrth 2020;
- 2) i ddarparu copi o adroddiad HIW i holl aelodau'r Bwrdd; a
- 3) rhoi mwy o fanylion i Aelodau ar y camau adfer sydd wedi'u cymryd yn dilyn y farwolaeth y cyfeirir ati yn yr adroddiad.

19.162 Perfformiad Ambiwllans - Adroddiad Perfformiad ac Ansawdd Ardal BIPBC Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru mis Hydref 2019.

19.162.1 Rhoddodd Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) a Rheolwr Gweithrediadau WAST y Gorllewin gyflwyniad powerpoint yn manylu ar ddangosyddion perfformiad ac ansawdd o ran galw, ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion, adnoddau, datblygiadau a chynllunio. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau WAST yr heriau a'r diddordebau a rennir rhwng PBC a WAST wrth sicrhau bod manteision i gleifion yn cael eu gwireddu a hefyd cydnabod pwyntiau cyfyng o fewn Cynllunio Gaeaf. Tynnodd Rheolwr Gweithrediadau WAST y Gorllewin sylw at waith i fynd i'r afael ag ardaloedd gwledig a chynghorodd fod gwelliannau diweddar yn y Gorllewin yn cael eu hefelychu yn yr ardaloedd eraill. O ran trosglwyddiadau Ambiwllans, dywedodd fod gwelliannau parhaus yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Gwynedd tra bod dirywiad yn Ysbyty Glan Clwyd (YGC).

19.162.2 Fe gododd aelodau'r Bwrdd gwestiynau amrywiol. Mewn ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE), rhoddodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau fwy o fanylion o ran perfformiad amrywiol trosglwyddiad ambiwlans yn yr Ysbytai Cyffredinol Dosbarth, gan nodi mai YGC welodd y nifer fwyaf o ambiwlansys a sicrhodd fod gwaith yn cael ei wneud i ryddhau ambiwlansys cyn gynted â phosibl i wasanaeth. Nodwyd bod cynnydd ar draws Cymru yn nifer y cleifion â phoen yn y frest, profiad o godymau, problemau anadlu, aciwtedd cynyddol a phobl hŷn. Sicrhawyd y Cadeirydd bod gwaith yn cael ei wneud mewn ffyrdd gwahanol i ymdrin â materion o'r fath. Roedd Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd yn bryderus am dulliau amgen i wella profiadau ar gyfer cleifion sy'n cael codymau megis yn y gymuned a'r trydydd sector. Dywedodd y Rheolwr Ardal WAST y Gorllewin am y llwybr rhagnodi cymdeithasol sy'n cael ei ddatblygu yn Ynys Môn. Cododd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) bryder a oedd wedi'i fynegi yn dilyn cyflwyniad diweddar i'r SRG ar wasanaethau strôc a oedd yn ymwneud ag amseroedd teithio a statws RAG. Adroddodd y Rheolwr Ardal Gorllewin WAST fod cynllun rheoli perfformiad newydd wedi'i gyflwyno yn y maes hwn a oedd yn cael ei ddarparu'n gyson ar 95% a bod statws ambr yn briodol ar hyn o bryd o ran y model ymateb cyfredol a oedd yn cael ei ystyried ymhellach. Dywedodd Rheolwr Gweithrediadau WAST bod hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan adolygiadau clinigol ac archwiliad a oedd yn cael eu cynnal.

19.162.3 Cafwyd hefyd drafodaeth ar gwynion ynghylch amseroedd aros o fewn y gymuned leol, a gafodd eu cydnabod gan Reolwr Gweithrediadau WAST a'r gofid a achoswyd i'r cleifion. Atgoffodd aelodau o'r flaenoriaeth ar gyfer cyflwyno galwadau coch a'r adnodd cyfyngedig sydd ar gael, ond dywedodd fod y gwasanaeth yn edrych ar atebion amgen. Croesawodd y cyfle i weithio ymhellach gyda'r Trydydd Sector a gwahodd aelodau i gynghori ar unrhyw fentrau lleol yr oeddent yn gwybod amdanynt wrth symud ymlaen. Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau o'r galw a'r capasiti sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd gan Bwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC). Amlygodd yr Aelod Annibynnol (TU) y cyfathrebu gweithredol rhagorol rhwng cydweithwyr PBC a WAST a'r pwyslais ar gyflawni mewn partneriaeth.

19.162.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad perfformiad ac ansawdd

19.163 Adroddiad Monitro Cynnydd y Cynllun Blynyddol

19.163.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr eitem hon. Tynnodd sylw at yr heriau o fewn gofal wedi'i drefnu, gan gynghori ar gynnydd y cynllun busnes hyd yma o fewn endosgopi, wroleg a hefyd cyllid ychwanegol o £60m yr ydym yn ceisio ei gael gan Lywodraeth Cymru o ran cynllun parhad busnes ailddatblygu Ysbyty Maelor Wrecsam.

19.163.2 Mewn ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor QSE, nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad fod rhaglen cyffredinol yn cael ei pharatoi i gael ei hystyried ym Mhwylgor Cyllid a Pherfformiad (F&P) ym mis Tachwedd er mwyn mynd i'r afael â heriau gwasanaeth orthopedig, er bod y Bwrdd ar hyn o bryd yn symud ymlaen gyda recriwtio meddygon ymgynghorol oherwydd angen gwasanaeth ar draws y sefydliad. Nodwyd hefyd bod y Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Gwybodaeth yn monitro'r mater yn ymwneud â'r peilot a gyflwynwyd fel ateb dros dro i fynd i'r afael ag oedi cenedlaethol y System Gwybodaeth Gofal Cymuned Cymru.

19.163.3 Codwyd nifer o gwestiynau o ran ystad cyfredol PBC. Nodwyd, oherwydd dyraniad cyfalaf annigonol, bydd pwyslais strategaeth ac achos busnes ystadau ar wella'r ystâd bresennol a defnyddio cyfalaf dewisol hefyd. Atgoffwyd y Bwrdd o anghenion y

<p>gwasanaeth cofnodion iechyd fel rhan o ailddatblygiad Ablett. Dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith hefyd yn cael ei wneud gyda phartneriaid i archwilio gofod a rennir a gwahanol ffyrdd o weithio.</p> <p>19.163.4 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y byddai pwysau'r costau sy'n dod i'r amlwg sy'n gysylltiedig â datblygiadau wroleg ac orthopedig yn cael eu gweithio trwy'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad i gyd-fynd â chynllun blynyddol y Bwrdd, gan gynghori bod proses achos busnes newydd a chadarn wedi cael ei chyflwyno. Ailadroddodd y Cadeirydd na fyddai unrhyw gynnydd mewn costau yn y flwyddyn oni bai ei fod yn eithriadol, fe'i sicrhawyd hefyd bod y Tîm Gweithredol yn trafod datblygiadau gwasanaeth strôc y gellid eu symud ymlaen heb fuddsoddiad ariannol sylweddol.</p> <p>19.163.5 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd Iechyd yn nodi'r adroddiad.</p>	
<p>19.164 Adroddiad Integredig Ansawdd a Pherfformiad</p> <p>19.164.1 Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sylw at berfformiad cryf gwasanaethau canser fel y gorau yng Nghymru, ond roedd yn cydnabod heriau o ran amseroedd ymateb. Nodwyd, er bod heriau Gofal Heb ei Drefnu a phresenoldeb uwchlaw'r cynllun ar draws Adrannau Achosion Brys PBC, roedd gwelliannau yn parhau dros yr ychydig fisoedd diwethaf, yn enwedig yn yr uned sydd newydd agor yn Ysbyty Maelor Wrecsam. Adroddodd y Cadeirydd bod ef a'r Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau'n bwriadu ymweld yr wythnos ganlynol a chafodd fanylion ynghylch sut fyddai'r gefnogaeth ddwys a ddarperir ynghyd â'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gofal Eilaidd yn cael ei ymgorffori i fewn i waith craidd wrth symud ymlaen i sicrhau bod cynaliadwyedd y gwelliannau cymhleth yn datblygu.</p> <p>19.164.2 Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad sylw at berfformiad siomedig o fewn gofal wedi'i drefnu, yn enwedig o ran bod pobl yn aros dros 36 a 56 wythnos ble'r oedd camau adferol yn cael eu cymryd. Tynnwyd sylw at berfformiad adran offthalmoleg, orthopaedig, wroleg a llawfeddygaeth cyffredinol. Nodwyd y cynnydd yn nifer y cleifion categori uchel ynghyd â'r cynnydd parhaus o 2% i 8% mewn galw ar gyfer gwasanaeth dydd. Gofynnwyd am eglurder ar y cyfeirnod targed ar dudalen 43.</p> <p>19.164.3 Dywedodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau y byddai gwaith glanhau data yn gwella cywirdeb ac y byddai delio â chleifion yn nhrefn amser yn gwella'r ôl-groniad dilynol. O ran perfformiad y gweithlu, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Sefydliad Datblygiadol bod absenoldeb salwch yn uwch nac y dylai fod, fodd bynnag roedd PBC yn drydydd yng Nghymru ac nid oedd yn allanolyn. Roedd yr Uwch Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r gyrrwyr mwyaf a darparu cefnogaeth arweinyddiaeth a rheoli ynghyd â gwaith rhagweithiol o ran absenoldeb sy'n ymwneud â straen, sef y gyfradd isaf ar draws GIG Cymru. Dywedodd am waith gyda phartneriaid Undeb Llafur wrth symud gwelliannau ymlaen. Dywedodd y Cadeirydd fod manylion pellach o ran staff asiantaeth wedi'u dosbarthu i aelodau a chanmolodd y gwelliant yr adroddwyd arno o ran hyfforddiant gorfodol sydd wedi'i gwblhau. Anogodd y Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yr angen i'r sefydliad ddatblygu ei gapasiti asiantaeth nyrsio ei hun o fewn ei aelodau staff a banc gwerthfawr ei hun, a fyddai'n bwysig o safbwynt diogelwch cleifion ac ariannol.</p> <p>19.164.4 O ran Cyfeiriad at Driniaeth (RTT) tynnodd y Cadeirydd sylw at y gwaith a adroddwyd yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad diweddar gan y Pennaeth Dros Dros</p>	<p>MW</p> <p>SH</p>

<p>Gofal Wedi'i Drefnu sydd newydd ei benodi. Gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid rannu'r cynlluniau 60/90 diwrnod sydd wedi'u trafod yng nghyfarfod diweddar y Tîm Gweithredol. Adroddodd y bydd mis Tachwedd yn fis critigol ar gyfer datblygiad sy'n cael ei ddangos a nododd y byddai angen gosod taflwybrau pendant ynghyd â chynlluniau i'w cefnogi pan fyddai eglurder adnodd ariannol yn hysbys. Ar ôl mynegi pryder ynglŷn â llithriad taflwybrau a diffyg cyflawni arbedion, cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid i roi eglurder i'r Cadeirydd ar y sefyllfa bresennol y diwrnod canlynol.</p> <p>19.164.5 Cydnabuwyd y gwelliannau a ddarparwyd gan y Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau a'r timau o ran camau i reoli haint. Cytunwyd y byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yn edrych i mewn i fater a amlygwyd o fewn contractio allanol.</p> <p>19.164.6 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</p>	<p>SH</p> <p>MW/SH</p>
<p>19.165 Adroddiad Cyllid Mis 5</p> <p>19.165.1 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad ac yn canolbwyntio'r drafodaeth ar adroddiad mis 6.</p>	
<p>19.166 Adroddiad Cyllid Mis 6</p> <p>19.166.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid yr adroddiad a oedd yn cadarnhau ar ddiwedd Mis 6 bod y Bwrdd Iechyd wedi gorwario £21.2m, £6.2m yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r cyfanswm rheoli - cynllun graddol hyd yn hyn o £15.0m (gan gynnwys £2.5m o darged ychwanegol wedi'i ddyrannu o Fis 5 ymlaen ar £1.25m y mis). Nodwyd ym mis 6 bod y Bwrdd Iechyd wedi cyflawni diffyg o £2.9m. Roedd hyn ychydig yn brin o sefyllfa gytbwys yn erbyn y cynllun gwreiddiol, ond ni chyflawnwyd yr arbedion ychwanegol o £1.3m fesul cam i gyflawni'r cyfanswm rheoli. Y prif uwch adran a oedd wedi gorwario oedd Gofal Eilaidd, ble mae'r prif achosion dros y gorwariant oedd diffyg cyflawni arbedion, costau premiwm asiantaeth a phwysau costau eraill.</p> <p>19.166.2 Nododd yr adroddiad yr arbedion a gyflawnwyd hyd heddiw o £8.7m yn erbyn cynllun o £13.5m, gan roi diffyg o £4.8m. Roedd arbedion ychwanegol o ran osgoi costau ac effeithlonrwydd o £3.7m wedi'u cyflawni hyd yma, ac roedd pwysau costau yn codi yn ystod y flwyddyn. Y rhagolwg ar gyfer gofyniad ariannol ar gyfer y flwyddyn oedd £42.4m. Cododd hyn o'r sefyllfa ddiffyg a ragwelwyd, symudiadau mewn balans cyfalaf gwaith referniw a dyraniadau adnoddau cyfalaf na chawsant eu tynnu yn 2018/19. Byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried pob cam posibl i leihau lefel y Cymorth Arian Strategol Ad-daladwy y gofynnir amdano. Y Cyfyngiad Adnodd Cyfalaf (CRL) ym Mis 6 oedd £17.2m. Y gwariant hyd yma oedd £5.5m yn erbyn cynllun o £6.0m. Byddai llithriad o £0.5m yn cael ei adfer drwy gydol gweddill y flwyddyn.</p> <p>19.166.3 Diffyg rhagolwg y Bwrdd Iechyd oedd £35m, yn unol â'r cynllun cychwynnol ond £10m y tu ôl i'r cyfanswm rheoli o £25m. Er bod y sefyllfa a allosodwyd hyd yn hyn yn cyfateb i ddiffyg blwyddyn lawn o £42.4m, roedd y rhagolwg a adroddwyd i Lywodraeth Cymru yn adlewyrchu effaith ddisgwyliedig y camau sy'n cael eu rheoli trwy'r Rhaglen Adferiad, gan gynnwys mesurau gafael a rheolaeth a throsi a chyflawni cyfleoedd arbedion. Roedd y rhagolwg diffyg o £35m yn gofyn am gyflawni'r holl gynlluniau graddfa gwyrdd ac ambr a oedd yn cyfateb i £28.7m a £7.7m o gynlluniau sydd ar hyn o bryd yn goch. Adroddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid bod gwaith yn cael ei wneud i lywio'n llym ar y targed £25m a osodwyd gan Lywodraeth</p>	

Cymru, gan ddeall nad yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol a chyfeiriodd at adolygiad PriceWaterhouseCooper a gomisiynwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd.

19.166.4 Tynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid sylw at y sefyllfa ariannol o ran RTT, gan rannu trafodaeth a oedd wedi digwydd yn y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad diweddar ble roedd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru yn bresennol. Fe amlygodd hefyd risgiau gan gynnwys Cronfa Risg Cymru, hawliadau digwyddiad posibl, cynnydd mewn pris a phecynnau Gofal Iechyd Parhaus.

19.166.5 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod tyniant o fewn y rhaglen arbedion, sy'n rhannu'r gafael sy'n deillio o'r cyfarfodydd Grŵp Adfer Ariannol sy'n cael eu cynnal bob pythefnos a'r gwaith monitro sy'n cael ei gyflawni gan aelodau Tîm Gweithredol y Grwpiau Gwella a gyflwynwyd y maent hwy hefyd yn gyfrifol am eu harwain.

19.166.6 Mewn ymateb i Gadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid o ran hyder ar gyflawni targedau ymestyn na chyflawnwyd yn ystod y 3 mis blaenorol, dywedodd y Prif Weithredwr, er bod 3 blynedd wedi bod o ddiffyg cynyddol, byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei gyflawni yn unol â'r cynllun a osodwyd. Holodd aelod am y cynnydd ar yr ailddyliad sy'n cael ei gynnal o ran y cynnydd o £9.6m yn y categori osgoi costau a adroddwyd.

19.166.7 Mewn ymateb i p'un a all y £4m o orwariant yn Ysbyty Glan Clwyd gael ei drawsnewid yn realistig, cydnabu'r Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod hyn yn ardal risg uchel, fodd bynnag darparwyd cefnogaeth gan yr uwch dîm yn enwedig o fewn y Grŵp Adfer Ariannol.

19.166.8 Myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol ar gymhlethdod newid trawsnewidiol ac amlygodd bod costau meddygaeth yn anwadal. Rhannodd ei gred bod angen mynd i'r afael â phrisiau anwadal yn hytrach nag arferion rhagnodi wrth symud ymlaen.

19.166.9 O ran cwestiwn aelod, nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Cyllid fod effeithiau i'w gweld o fewn cyllid a pherfformiad yn dilyn y mesurau gafael a rheolaeth a gyflwynwyd a'u hymgorfforwyd gan y Grŵp Adfer Ariannol. O ran hyder wrth drosglwyddo o'r tîm PWC, adroddodd ar strwythurau dros dro sydd ar waith yn y Swyddfa Rheoli Cyflawni a Thimau Gwella Gwasanaeth, gan gynghori y byddai gwersi yn cael eu dysgu gan PWC wrth i drefniadau pendant gael eu hymgorffori. Cafwyd hefyd drafodaeth ar rôl y Grwpiau Gwella a'r cydbwysedd rhwng camau arbedion ac adfer, atgoffodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus fod y rhain yn cynnwys meysydd heblaw meysydd ariannol.

19.166.10 Wrth drafod y rhaglen arbedion y bwriadwyd ei chyflawni tuag at fisoedd olaf y flwyddyn, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn graff wrth fonitro'r maynlion hyn.

19.166.11 Eglurodd y Cadeirydd

- bod angen cyflawni arbedion.
- bod angen gwell gafael a rheolaeth o ran gwariant yn ogystal â'r diffyg sylfaenol.
- nid diffyg o £35m yw targed y sefydliad
- bod angen cyflawni targed diwedd blwyddyn 2019/20.

19.166.12 Penderfynwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi, gan gynnwys sefyllfa a ragwelir o ddiffyg o £35.0m

19.167 Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau a Grŵpiau Cyngori

Nodwyd adroddiadau sicrwydd y Cadeiryddion canlynol

19.167.1 Pwyllgor Archwilio 12.9.19**19.72.2 Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 24.9.19**

Uwch gyfeiriodd Cadeirydd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:

- Derbyniwyd yr Adroddiad Dadansoddi Bwlch Iechyd Galwedigaethol a Diogelwch a oedd yn nodi meysydd sylweddol o ddiffyg cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch ar draws y Bwrdd Iechyd.
Hefyd, pwysleisiodd yr adroddiad yr angen am wella'r strwythur rheoli risg yn ogystal â chadernid hunanasesiadau blaenorol a gynhaliwyd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cynllun gwella cynhwysfawr gydag amserlenni, ond nodwyd y gallai rhai o'r gofynion gynnwys defnydd o adnoddau sylweddol ac nid yw'r Pwyllgor mewn sefyllfa i ystyried y rhain.
- Mynegodd y pwyllgor bryder ynglŷn â diffyg cynnydd y Clirio Ôl-Groniad Dilynol. Er bod yr adroddiad yn anghyson mewn rhan, mae maint yr ôl-groniad wedi cynyddu ac roedd y tafliwybrau ar gyfer gwella'n aneglur.
Nid oedd y Pwyllgor yn gallu nodi'r safle penodol a adroddwyd na gwella'r mentrau a amlinellwyd am fod y ddau beth yn aneglur.

19.167.3 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 30.9.19**19.167.4 Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 4.10.19**

Amlygodd Cadeirydd y Pwyllgor bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r Grŵp Cyngori Cronfeydd Elusennol yn cael eu hadolygu'n dilyn y cyfarfod.

19.167.5 Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl 27.9.19

Amlygodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n nodi'r thema o wella parhaus, ynghyd â gwelliannau sylweddol ar draws yr Uwch Adran.

19.167.6 Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth 29.8.19

Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol bod amcanion Uwch Reolwyr yn cael eu hystyried ers y cyfarfod blaenorol.

19.167.7 Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 1.10.19**19.167.8 Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Digidol 27.9.19**

Amlygodd Cadeirydd y Pwyllgor y peryglon sy'n ymwneud ag oedi wrth roi systemau cenedlaethol ar waith a chofnodion iechyd.

19.167.9 Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid 10.9.19

Amlygodd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

- y cynnydd o fewn y gwasanaeth Iechyd Meddwl fel mater calonogol, gan sôn am y dull llwybr a'r rhagamcan o arbed arian i adennill costau yn ogystal ag effeithiolrwydd y broses cyfeirio a'r Hwb Gofal Cymuned.
Roedd y Grŵp yn falch o glywed am ddefnydd Ymarferwyr Iechyd Meddwl sy'n gweithio gyda'r Heddlu cyn i bwerau S136 gael eu rhoi ar waith.
- Wrth drafod y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol, pwysleisiodd y Grŵp bwysigrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd a'r angen i wneud hynny wrth ystyried y newidiadau i'r gwasanaeth. Roedd yn rhaid i gysylltiadau teithio, amseroedd teithio i wasanaethau a pherfformiad WAST gael ei ystyried a'i flaenoriaethu mewn rhyw ffordd.

- y diffyg presenoldeb gan Awdurdodau Lleol a chytunodd y Grŵp y dylai'r mater gael ei godi gyda nhw fel bod presenoldeb yn y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid yn cael ei flaenoriaethu.

19.167.10 Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd 13.9.19

19.168 Adroddiad diweddar Gofal Cychwynnol a Gofal yn Agosach i'r Cartref

19.168.1 Yn absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned a oedd yn mynychu'r Gynhadledd genedlaethol Gofal Cychwynnol, darparodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol (Ardal y Canol) gyflwyniad a oedd yn amlinellu model cymdeithasol cychwynnol a chymuned a o ofal, sefydlogrwydd Meddygfeydd a Phractisau a Reolir, gweithlu a'r Academi, llwybrau gofal clinigol a blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

19.168.2 Atgyfnerthodd y Cadeirydd y pwysigrwydd o ofal yn agosach i'r cartref a gwahoddwyd cwestiynau gan y Bwrdd. Fel ymateb, cynghorodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol (Ardal y Canol) ar gynlluniau i recriwtio a hyfforddi uwch nyrs ymarferwyr a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill. Nododd aelod bod cyflymdra'r newid wrth ymwneud â'r drydedd sector yn gadarnhaol ond er hyn pwysleisiodd yr angen i fod yn ofalus ynglŷn â'r ymarferoldeb sydd yn ymwneud â chyflwyno mentrau o fewn practisau nad ydynt yn cael eu rheoli. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol (Ardal y Canol) yr her mewn cefnogi meddygfeydd bychan a dywedodd y gallai gweithlu ychwanegol gael ei gyflwyno ar sail clystyrau. Mewn perthynas â phryder gyda datblygiadau'r dyfodol ar ddiwedd y peilot, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol (Ardal y Canol) bod yr her wedi ei chydabod, fodd bynnag, byddai clystyrau'n gallu datblygu eu hachosion busnes eu hunain yn y dyfodol ar gyfer cynlluniau peilot llwyddiannus wrth symud ymlaen yn eu cysyniadau lleol eu hunain.

19.168.3 Nodwyd bod yr Is-Gadeirydd yn mynychu'r gynhadledd genedlaethol Gofal Cychwynnol y diwrnod hwnnw hefyd, fodd bynnag, anfonodd ei chefnogaeth a'i llongyfarchion ymlaen at dîm Gofal Cychwynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd wedi cyflawni ar nifer o lefelau ac wedi cael llawer o lwyddiant drwy waith partneriaeth. Cydnabu'r weledigaeth glir ar gyfer trawsnewid y gwasanaeth a phwysigrwydd y gwaith o'n blaenau i wneud y gwasanaeth yn addas i'r dyfodol.

19.168.4 Nododd Is-Gadeirydd y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth y gallai'r peryglon sy'n ymwneud â chlystyrau gael eu trafod yng ngweithdy'r Pwyllgor a gynhelir ar 12.11.19 ble byddai cynlluniau clystyrau o fewn y Gorllewin yn cael eu trafod a gwahoddwyd aelodau o'r Bwrdd i fynychu'r gweithdy.

19.168.5 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r cynnydd mewn trawsnewid y gwasanaeth Cymuned a Chychwynnol yn ystod y flwyddyn flaenorol ac amlinellwyd y goblygiadau llywodraethu ac ariannol.

19.169 Cynllun Tymhorol

19.169.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithredoedd yr adroddiad a ddarparodd ddiweddariad a sicrwydd i'r Bwrdd bod gwaith yn mynd yn ei flaen mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac asiantaethau partner eraill i alluogi darpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i gwrdd â'r galw ychwanegol a'r pwysau a ddisgwylir yn ystod gaeaf 2019/20. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd gyda'r rhaglen waith Adeiladu Gwell Gofal ar gyfer darparu gwelliannau i Ofal Heb Ei Drefnu (USC).

<p>19.169.2 Nodwyd bod cais drafft i Lywodraeth Cymru o gynllun gweithredol y gaeaf wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth â Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal, wedi ei gyflwyno i Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ac y byddai'r cynllun ar y cyd terfynol yn cael ei gyflwyno i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru cyn y cais terfynol i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd. Byddai Grŵp Gwella Gofal Heb ei Drefnu yn goruchwyllo holl fentrau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer gwytnwch dros y gaeaf ar y cyd â rhaglen waith Adeiladu Gwell Gofal.</p> <p>19.169.3 Rhoddodd aelod Cyswllt y Bwrdd sy'n cynrychioli'r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol sylw ar y cynlluniau sy'n aeddfedu a ddatblygwyd mewn partneriaeth ac y byddai gweithio gyda'n gilydd yn gwneud gwahaniaeth i gleifion yng Ngogledd Cymru.</p> <p>19.169.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud i gryfhau'r ddarpariaeth dros Aeaf 2019/20 drwy fentrau a ddatblygwyd mewn partneriaeth a dyraniad cyllideb wedi ei gytuno arno gyda Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda'r rhaglen Adeiladu Gwell Gofal.</p>	
<p>19.170 Adroddiad Cofrestr risgiau corfforaethol a fframwaith sicrwydd.</p> <p>19.170.1 Nodwyd bod y sefydliad yn symud tuag at Fodel Rheoli Peryglon Menter (ERM) er mwyn gwella rheolaeth risg a fyddai'n cael ei gefnogi gan strwythur llywodraethu clir drwy Bwyllgorau. Cydnabuwyd y byddai heriau er mwyn sefydlu systemau ac felly ymchwiliodd y tîm i roi estyniad ar y strategaeth gyfredol hyd nes 31.3.2020. Cefnogodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio'r trefniant hwn ac atgoffodd y Prif Weithredwr fod y datblygiad hwn wedi ei gynnwys mewn ffrydiau eraill o waith hefyd.</p> <p>19.170.2 Pwysleisiodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor F&P yr angen i sicrhau 'bod y materion sylfaenol yn gywir' parthed rheolau, gan roi ei farn bod y mwyafrif o'r rheolau sydd ar y gofrestr gyfredol yn weithredoedd ac nid yn rheolau. Hefyd, gofynnodd am eglurhad ar pam bod CRR10b parthed Cofnodion Iechyd wedi eu newid i gynnwys cyfeiriad at 'Llym' gan nad dyna oedd yr achos yn y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Digidol diweddar a gadeiriwyd ganddo.</p> <p>19.170.5 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • nodi a chymeradwyo'r adroddiad • cefnogi parhad fformat yr adroddiad nes 31.3.2020 	DF/SH
<p>19.171 Adroddiad Blynyddol 2019, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus</p> <p>19.171.1 Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ei bod yn fraint ganddi gyflwyno'r adroddiad 'Diogelu a Ffynnu' a baratowyd gan y Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol ac sy'n darparu trosolwg cryno o'r materion diogelu iechyd yng Ngogledd Cymru. Pwysleisiodd fod y maes hwn yn cael ei drafod fwy a mwy drwy fusnes y Pwyllgor Iechyd Poblogaeth, Partneriaethau a Strategaeth. Darparodd yr adroddiad wybodaeth ar heriau clefydau heintus, brechiadau, effaith ar yr amgylchedd, sgrinio a chynllunio ac ymateb i ddigwyddiad. Rhannodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus drosolwg cryno o ganlyniadau iechyd poblogaeth Gogledd Cymru a ganolbwyntiodd ar ysmegu, alcohol, iechyd meddwl a lles, pwysau iach, gweithgaredd corfforol, a gordewdra plentyndod a mamolaeth. Atgoffodd y Bwrdd o'i gyfrifoldeb ar gyfer cynllunio a darparu gofal iechyd ac i hyrwyddo a <i>diogelu</i> iechyd. Wrth ddod â'i chyflwyniad i ben, tynnodd sylw at wariant parthed unigolion iach mewn cymhariaeth â chyfartaledd Cymru, rhagamcaniadau poblogaeth o fewn dalgylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r ffocws ar y meysydd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, clystyrau, ataliaeth ac ymyriad</p>	

cynnar a dull iechyd y boblogaeth. Dywedodd mai'r Cynllun Integredig Tymor Canolig fyddai'r pwerdy'n gyrru hyn ymlaen i'r dyfodol ochr yn ochr â gwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

19.171.2 Nododd Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ymrwymiad y sector dai i ymdrin â'r anghydraddoldebau a phwysleisiodd ddymuniad y sector i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol i symud y gwaith yn ei flaen. Diolchodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus am y cynnig hwn o gymorth a chydabod gwaith y 3ydd Sector mewn meysydd megis Banciau Bwyd.

19.171.3 Myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ar fuddsoddiad o fewn y maes hwn a phryder ynglŷn â chyllidebau a oedd yn hollbwysig i'r gwaith hwn. Nodwyd y byddai cynyddu'r gwariant o fewn gwaith cymunedol yn darparu'r gwerth gorau am arian. Hefyd, myfyriodd aelodau'r Bwrdd ar yr angen am ddealltwriaeth well o'r agenda ataliol a buddsoddiad o adnoddau megis Cymru Iachach a sicrhau bod cefnogaeth ar y cyd gyda Byrddau Gwasanaeth Cenedlaethol, Byrddau Gwasanaeth Lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Cydnabuwyd bod cymhlethdodau a pheryglon angen cael eu hystyried. Nododd y Cadeirydd y byddai'n hyrwyddo symud hyn ymlaen gyda Chadeirydd y Bwrdd Gwasanaeth Lleol er lles cymunedau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

19.171.4 Cytunodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus i edrych ar ffyrdd eraill o ddsbarthu'r adroddiad blynyddol heblaw am ei gyhoeddi ar-lein. Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus am ei chyflwyniad a gwaith y tîm PHW. Myfyriodd ar y budd i boblogaeth y Bwrdd Iechyd a'r heriau i'w hystyried yn ystod y drafodaeth ar fenter 'gwario'n well, gwario'n dda' y Bwrdd Iechyd.

19.171.5 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad Blynyddol.

TO

19.172 Rhagolwg Tair Blynedd a Chynllun Blynyddol 2019-20

19.172.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad yr eitem hon. Dywedodd mai blaenoriaeth y Bwrdd oedd sicrhau bod pwyslais ar y cynllun 2020/21, wrth hyrwyddo gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol mewn paratoad ar gyfer heriau'r flwyddyn nesaf - yn enwedig parthed RTT. Amlygodd bod yr adroddiad yn darparu diweddariadau ar daflwybrau sydd wedi newid a phwysleisiodd yr angen i'r Bwrdd Iechyd gyflwyno safle a fyddai'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at daflwybrau allweddol parthed y RTT ac endosgopi na chafwyd eu cynnwys. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad bod y prif ddangosyddion perfformiad wedi eu hadnabod gan Lywodraeth Cymru yn ogystal ag yn lleol o fewn y Bwrdd Iechyd.

19.172.2 Cwestiynodd Cadeirydd y QSE sut oedd y broses o ddilysu data yn wahanol i'r prosesau blaenorol, gan nodi bod atebolrwydd wedi ei gryfhau a bod agwedd mwy cadarnhaol yn y newid ar waith. Wrth gydnabod bod mwy o hyder wedi ei ddarparu gan y drafodaeth RTT yn y Pwyllgor F&P blaenorol, pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i ddangos gwelliant o ystyried yr holl gamau sydd wedi eu cymryd hyd yn hyn. Mynegodd Is-Gadeirydd y Pwyllgor F&P bryder o ran sicrhau, gan fod Pennaeth Gofal wedi'i Drefnu wedi ei benodi dros dro, y byddai prosesau cadarnhaol sy'n cael eu cyflwyno yn cael eu hymgorffori o fewn y sefydliad. Sicrhaodd Prif Weithredwr y Bwrdd bod trosglwyddo sgiliau ac ymgorffori gweithdrefnau gweithredu safonol yn delio â hyn ynghyd ag arweinyddiaeth gref ar draws 3 Ysbyty Cyffredinol Dosbarth y Bwrdd Iechyd.

<p>19.172.3 Gofynnodd y Cadeirydd am sicrwydd ar osod taflwybrau, gan bwysleisio'r angen am hyder a sicrwydd yn y maes hwn. Cyngorodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad ar yr angen i sicrhau credadwyedd, gan fyfyrir ar benderfyniadau cymhleth sydd wedi eu gwneud yn ystod y datblygiad drwy gydol y flwyddyn. Hefyd, rhoddwyd sicrwydd i'r Cadeirydd bod y targed ychwanegol ar gofnodi digwyddiad difrifol a ddarparwyd wedi ei ystyried fel un rhesymol ac yn ddigon uchelgeisiol.</p> <p>19.106.4 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun • nodi'r peryglon sy'n ymwneud â RTT/diagnostig a gwaith parhaus i ddatblygu'r cynllun gyda chefnogaeth LIC 	
<p>19.173 Strategaeth ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd 2020-2025</p> <p>19.173.1 Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddorau Iechyd yr eitem hon. Cydnabuwyd bod adborth a ddarparwyd mewn gweithdy'r Bwrdd a Phwyllgor Iechyd Poblogaeth, Partneriaethau a Strategaeth wedi ei fwydo i'r datblygiad hwn yn y strategaeth. Cyngorodd bod y strategaeth newydd yn allweddol i ddatgloi datblygu datrysiadau i nifer o'r heriau a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd gan ddod â gwybodaeth newydd, technoleg wedi ei seilio ar dystiolaeth ac incwm. Nododd yr egni a'r agwedd gadarnhaol iawn y tu ôl i'r datblygiad hwn.</p> <p>19.173.2 Rhannodd yr Aelod Annibynnol (Prifysgol) ei phersbectif ar y datblygiad. Myfyriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol fod datblygiad ar yr un pryd â strategaeth gwasanaethau clinigol sy'n cael eu galluogi'n ddigidol yn rhywbeth cadarnhaol, yn enwedig am ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio i wella'r broses o wneud penderfyniad wedi ei seilio ar dystiolaeth a gwella atyniad y Bwrdd Iechyd fel Cyflogwr i ymgeiswyr allanol. Yn y drafodaeth a ddilynodd, ac yn dilyn myfyrio ar yr agwedd gadarnhaol o gael addysg gan eraill a 'gwneud pethau'n wahanol', cytunwyd y byddai'r strategaeth yn cael ei amlygu yng Nghyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.</p> <p>19.173.3 Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • cymeradwyo'r strategaeth • cymeradwyo gweithio gyda'r RPB, a'r Hwb Ymchwil, Arloesedd a Gwella sydd newydd ei sefydlu i ddatblygu strategaeth R&I Ranbarthol ar gyfer y dyfodol. 	AT
<p>19.174 Crynodeb o Fusnes Heb y Cyhoedd y Bwrdd i gael ei adrodd arno'n gyhoeddus</p> <p>19.174.1 Penderfynwyd y byddai'r papur yn cael ei nodi.</p>	
<p>19.175 Fforymau Cymru Gyfan ac Eraill</p>	
<p>19.175.1 Cofnodion y Fforwm Arweinyddiaeth Gydweithredol a gynhaliwyd ar 13.5.19</p> <p>Penderfynwyd y byddai'r cofnodion yn cael eu nodi.</p>	
<p>19.175.2 Nodyn Briffio ar y Cyd Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru</p> <p>16.9.19 Penderfynwyd y byddai'r nodyn briffio yn cael ei gymeradwyo.</p>	
<p>19.175.3 Adroddiad Sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau 18.9.19</p>	

<p>Penderfynwyd y byddai'r Bwrdd yn nodi'r adroddiad.</p>	
<p>19.176 Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>19.176.1 Nodwyd bod y cyfarfod nesaf i'w drefnu ar y 30.1.20 mewn lleoliad i'w gadarnhau i alluogi'r Bwrdd i sicrhau bod cynllun blynyddol drafft 2020/21 wedi'i baratoi'n ddigonol cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. **Nodyn wedi'r Cyfarfod - cyfarfod wedi ei aildrefnu i 23.1.20**</p> <p>19.176.2 Sicrhodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad y Cadeirydd y byddai'r cynllun yn cyd-fynd â chyllideb y Bwrdd Iechyd a'r cynllun cyllid.</p>	
<p>19.177 Cyfarfodydd Pwyllgorau i gael eu cynnal yn gyhoeddus cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd</p> <p>Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad 19.11.19; Pwyllgor Llywodraethu a Gwybodaeth Digidol 21.11.19 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 28.11.19; Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth 3.12.19; Pwyllgor Cronfeydd Elusennol 10.2.19; Pwyllgor Archwilio 12.12.19; Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl 20.12.19.</p>	
<p>19.178 Unrhyw Fater Arall</p> <p>Cydnabu'r Cadeirydd y gwaith ymroddedig a wnaed gan Marian Wyn Jones fel Aelod Annibynnol ac Is-Gadeirydd y Bwrdd yn ystod ei chyfnod yn y swydd o fis Tachwedd 2011 i 30.11.19. Cymeradwyodd ei hymrwymiad a'i chefnogaeth i'r sefydliad, i'w chydweithwyr ac iddo yntau fel Cadeirydd y Bwrdd.</p>	
<p>19.179 Heb y Wasg a'r Cyhoedd</p> <p>Adduned i eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd - "Ystyried cynnig bod cynrychiolwyr o'r wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd i gael eu heithrio o weddill y cyfarfod hwn yng ngoleuni natur gyfrinachol y materion sydd i'w trafod, y byddai cyhoeddusrwydd arnynt yn niweidiol i ddiddordeb y cyhoedd. (Adran 1 (2) Y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960)."</p>	